

MILLER



Research Evaluation Consulting

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o ymatebion i ganllawiau Iaith Arwyddion Prydain

Dadansoddiad o ymatebion i'r
ymgynghoriad ar y canllawiau ychwanegol
ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru

Fersiwn Derfynol, Mehefin 2021

Dadansoddiad o Ymatebion i'r Ymgynghoriad ar Ganllawiau Ychwanegol ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru: Iaith Arwyddion Prydain

Dadansoddiad o Ymatebion i'r Ymgynghoriad ar Ganllawiau Ychwanegol ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru: Iaith Arwyddion Prydain

Nick Miller, Kerry KilBride, Dr Nick Morgan, Jessica Mann / Miller Research (UK) Ltd.



Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:

nick@miller-research.co.uk

Pen-y-Wyrlod, Llanwytherin, Y Fenni, Sir Fynwy, NP7 8RG, UK

www.miller-research.co.uk | 01873 851880 | Twitter: @miller_research

Tabl cynnwys

1.	Cyflwyniad/Cefndir	1
2.	Trosolwg o'r ymatebion	2
3.	Canllawiau Ychwanegol i'r Cwricwlwm ar gyfer BSL: Cwestiynau 1-10 o'r Ymgynghoriad	3
	Cwestiwn 1	3
	Cwestiwn 2	4
	Cwestiwn 3	5
	Cwestiwn 4	7
	Cwestiwn 5	9
	Cwestiwn 6	10
	Cwestiwn 7	11
	Cwestiwn 8	12
	Cwestiwn 9	13
	Cwestiwn 10	15
4.	Gweithdai'r Ymgynghoriad	22
	Cyflwyniad	22
	Cwestiwn 1	23
	Cwestiwn 2	24
	Cwestiwn 3	25
	Cwestiwn 4	26
	Cwestiwn 5	27
	Cwestiwn 6	29
	Cwestiwn 7	31
	Cwestiwn 8	33
	Cwestiwn 9	33
	Cwestiwn 10	34
	Sylwadau eraill	35

Geirfa

Talfyriad / gair allweddol	Diffiniad
BATOD	Cymdeithas Brydeinig Athrawon y Byddar (<i>British Association of Teachers of the Deaf</i>)
BSL	Iaith Arwyddion Prydain (<i>British Sign Language</i>)
NEU Cymru	National Education Union Cymru
UNCRC	Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

1. Cyflwyniad/Cefndir

- 1.1 Cyhoeddwyd Fframwaith Cwricwlwm i Gymru ar 28 Ionawr 2020. Cyn ei gyhoeddi, bu'r fframwaith yn destun ymgynghoriad eang a helaeth. Roedd yr adborth a dderbyniwyd yn dangos pa ganllawiau penodol, ychwanegol, y byddai ar ysgolion a sefydliadau addysgol eraill eu hangen er mwyn cynllunio a gwireddu eu cwricwlwm yn llwyddiannus. Mae'r cyfnod adborth ac ymgynghori yn cynnig cyfle hanfodol i bob ymarferydd a rhanddeiliaid allweddol eraill gyfrannu adborth i helpu datblygu'r canllawiau.
- 1.2 Comisiynwyd Miller Research, ar y cyd ag Old Bell 3, i gyflawni dadansoddiad annibynnol o'r ymgynghoriad, a oedd yn cynnwys ymgynghoriadau gweithdy gyda rhanddeiliaid, a trosglwyddo'rymatebion ysgrifenedig i'r canllawiau ychwanegol.
- 1.3 Mae'r elfen hon o ddadansoddiad yr ymgynghoriad yn canolbwyntio ar y canllawiau ychwanegol drafft ar gyfer iaith Arwyddion Prydain (BSL) yn y Cwricwlwm i Gymru. Mae canllawiau Cwricwlwm i Gymru ar gyfer ysgolion, sefydliadau ac ymarferwyr eraill sy'n ymwneud â llunio cwricwlwm sy'n cynnwys iaith Arwyddion Prydain. Mae hyn yn cynnwys BSL fel iaith gyntaf neu ail iaith i ddysgwyr byddar, ac eraill sy'n dysgu BSL fel trydedd iaith neu iaith ddilynol. Mae'n ffurfio rhan o Faes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu ac mae'n adeiladu ar y canllawiau ar gyfer y Maes hwn.

2. Trosolwg o'r ymatebion

- 2.1 Llwyddodd arolwg yr ymgynghoriad i ddenu cyfanswm o 48 o ymatebion llawn, gyda dosbarthiad iaith o 47 o ymatebion Saesneg ac 1 ymateb yn y Gymraeg. Yn ogystal â hyn, cyflwynwyd ymatebion ysgrifenedig pellach ar ran y rhanddeiliaid allweddol canlynol: NEU Cymru, Comisiynydd Plant Cymru, Cymdeithas Genedlaethol Plant Byddar Cymru a Chanolfan Gyfreithiol Plant Cymru.
- 2.2 Roedd gan bron bawb o ymatebwyr i'r arolwg rôl alwedigaethol o fewn y sector addysg, gyda thri ymatebydd yn unig yn disgyn y tu allan i'r categori hwnnw, a dau ymatebydd heb nodi'r naill ffordd na'r llall. O'r rheini sy'n gweithio mewn addysg, roedd 28 o'r ymatebwyr yn athrawon, gan gynnwys tri athro plant byddar, un athro wedi'i gymhwyso mewn BSL ac un athro anghenion dysgu ychwanegol. Roedd yr ymatebion o alwedigaethau addysgol eraill yn cynnwys 5 cynorthwyydd addysgu (gan gynnwys un arbenigwr mewn BSL), 3 yn y sector sefydliadau addysg uwch, ac un Cyfathrebydd BSL.
- 2.3 Er bod yr ymatebion yn adlewyrchu nifer o sylwadau cadarnhaol ar gydnabod iaith Arwyddion Prydain fel iaith annibynnol, roedd y cwestiynau mwyaf cyffredin yn pwysleisio'r angen am eglurder yn y canllawiau fel y gellir gwireddu'n llawn yr uchelgeisiau a nodir.

3. Canllawiau Ychwanegol i'r Cwricwlwm ar gyfer BSL: Cwestiynau 1-10 o'r Ymgynghoriad

- 3.1 Roedd cwestiynau'r arolwg yn ceisio denu adborth cynhwysfawr ar bob agwedd o'r canllawiau drafft. Roedd hyn yn ymestyn o'u cysondeb â chanllawiau cyffredinol y Cwricwlwm i Gymru, i'w gallu i gydbwyso anghenion dysgwyr ag iaith Arwyddion Prydain yn iaith gyntaf iddynt â dysgwyr trydedd iaith, i'w heffaith posibl ar y Gymraeg. Yn ogystal, roeddent hefyd yn cynnig cyfle allweddol i ymatebwyr dynnu sylw at feysydd sydd angen mwy o fanylion.

Cwestiwn 1

- 3.2 *A oes cyfatebiaeth glir rhwng canllawiau cyhoeddedig Cwricwlwm i Gymru a'r canllawiau Cwricwlwm i Gymru drafft hyn ar gyfer iaith Arwyddion Prydain?*
- 3.3 Gofynnwyd i gyfranogwyr a oedd cyfatebiaeth glir rhwng y ddwy ddogfen, gyda'r dewisiadau ymateb oedd, nac oedd a ddim yn siwr. Rhoddwyd dewis pellach i ymatebwyr i ymhelaethu ar eu hateb gyda sylwadau. O'r ymatebion o sylwedd i Gwestiwn 1, roedd 38 yn cytuno bod cyfatebiaeth glir rhwng y dogfennau, roedd 2 yn anghytuno, ac roedd 1 yn ansicr. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebion yn adlewyrchu'r farn fod yr esboniad yn eglur ac yn cydweddu'n dda â phedwar diben canllawiau'r cwricwlwm.
- 3.4 Roedd yr adborth cadarnhaol ar gydnawsedd ac eglurder y ddogfen yn cynnwys, *'Cwbl gydnaws â gweledigaeth y cwricwlwm newydd, ac yn amlwg gydnaws â'r pedwar diben, datganiadau o'r hyn sy'n bwysig, a'r camau cynnydd,' ac 'Mae enghreifftiau clir o sut mae'r ddwy ddogfen yn mapio ar ei gilydd'.*
- 3.5 Roedd croeso brwd i'r ffordd mae'r canllawiau ar gyfer iaith Arwyddion Prydain yn rhoi cyfleoedd i bob dysgwr, ac i'r egwyddor y dylai dysgwyr byddar gael yr un cyfleoedd â dysgwyr sy'n clywed. Yn ogystal, roedd y gydnabyddiaeth nad oes gan ddysgwyr byddar o

angenrheidrwydd anabledd dysgu yn cael ei chroesawu gan ymatebwyr.

- 3.6 Manteisiodd un cyfranogwr sy'n byw a gweithio yn yr Alban ar y cyfle i gymharu cynlluniau'r cwricwlwm rhwng gwledydd, gan ganmol y Cwricwlwm i Gymru am ei ddull 'lle mae'r plentyn yn ganolog' *'gan roi grym i ysgolion lunio eu cwricwlwm eu hunain'*. Yn benodol, roedd y cyfranogwr yn canmol y pwyslais ar amlieithrwydd, gan dynnu sylw at y ffaith fod plant byddar yn aml yn cael eu hamddifadu o'r cyfle i gael eu cyflwyno i ieithoedd eraill yn yr ysgol.
- 3.7 Roedd y ddau ymatebydd a ddewisodd 'na' i'r cwestiwn hwn yn awgrymu yn eu sylwadau bod y ddogfen yn brin o eglurder ar integreiddio ystyriaethau'n ymwneud â'r Gymraeg i ddysgwyr iaith Arwyddion Prydain. Roedd un o'r ymatebwyr yn pwysleisio bod y cyddestun yng ngogledd Cymru yn 'hynod gymhleth'. Roedd yr ail ymateb 'na' yn ymhelaethu fod y ddogfen yn brin o gyfarwyddyd ar sut i ddysgu BSL Cymraeg rhanbarthol 'e.e., *cadw'r arwyddion Cymraeg yn rhanbarthol. Nid yw'n sôn am lythrennau Cymraeg a Saesneg a sillefir â bys?*' Awgryma'r sylwadau y gall fod angen ymhelaethu pellach i gydnabod y gwahaniaeth yn glir yn ogystal â chanllawiau ar gyfer sut y gellir gweithredu'r ddau.

Cwestiwn 2

A oes cyfatebiaeth glir rhwng Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu a'r canllawiau Cwricwlwm i Gymru drafft hyn ar gyfer iaith Arwyddion Prydain?

- 3.8 O'r ymatebion, roedd 37 yn cytuno eu bod yn gyson â Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu, gyda 6 yn anghytuno, ac roedd un cyfranogwr yn ansicr. Roedd llawer o'r sylwadau'n efelychu sylwadau'r cwestiwn cyntaf, gyda rhai eisoes wedi cyfeirio at y maes ac yn ailgadarnhau datganiadau fod y gyfatebiaeth yn glir.

- 3.9 Dywedodd rhai ymatebwyr fod y cysylltiadau'n helpu pwysleisio bod iaith Arwyddion Prydain yn bodloni holl ofynion iaith annibynnol, ac mai'r unig wahaniaeth oedd ei bod yn iaith weledol. Er enghraifft, roedd un cyfranogwr a oedd yn gweithio mewn ysgol arbennig yn nodi ei bod yn fuddiol i ddysgwyr sy'n defnyddio BSL gael cydnabyddiaeth academaidd i'w hiaith. Roedd eraill yn nodi eu bod yn cynnig camau cynnydd clir i ddysgwyr sy'n defnyddio BSL fel eu hiaith gyntaf neu ail iaith, a hyd yn oed fel trydedd iaith.
- 3.10 Ar y pwynt hwn, roedd tri chyfranogwr yn gwneud sylwadau am bryderon ynghylch diffyg canllawiau a chefnogaeth o safbwynt cynllunio ar gyfer y cwricwlwm. Ymddangosai fod hyn yn thema barhaus trwy'r ymatebion, ac ymhelaethir arni mewn cwestiynau pellach yr ymdrinnir â hwy isod.
- 3.11 Yn ôl un ymatebydd, er bod cysondeb rhwng iaith a chyfathrebu, nid yw'r ddogfen yn glir ar sut mae llythrennedd ar lefel gynradd is yn cydweddu â'r cynnig. Roedd y cyfranogwr yn cydnabod y gall fod yn anodd ymgorffori BSL o fewn galwadau'r cwricwlwm, ond gan ategu eraill, roeddent yn croesawu ei datblygiad parhaus.

Cwestiwn 3

A yw'r canllawiau Cwricwlwm i Gymru drafft hyn ar gyfer iaith Arwyddion Prydain yn cydbwyso anghenion dysgwyr byddar a dysgwyr trwm eu clyw sy'n dysgu gan ddefnyddio iaith Arwyddion Prydain fel iaith gyntaf neu ail iaith ag anghenion dysgwyr eraill y mae iaith Arwyddion Prydain yn drydedd iaith neu iaith ddilynol (fel Ffrangeg neu Almaeneg) iddynt?

- 3.12 O'r ymatebion a gwblhawyd, roedd 32 yn cytuno bod y canllawiau'n cydbwyso anghenion y ddau grŵp o ddysgwyr, roedd 9 yn anghytuno a 2 ddim yn siŵr.
- 3.13 Ymysg cyfranogwyr a oedd yn cytuno, gwnaed sylwadau cadarnhaol ynghylch cynhwysiant a manteision amlieithrwydd. Roedd cefnogaeth

i osod Iaith Arwyddion Prydain ar lwyfan cyfartal ag ieithoedd modern eraill.

- 3.14 Teimlai rhai cyfranogwyr fod y ddau gyd-destun wedi cael eu hystyried, a bod potensial i BSL fel iaith ychwanegol i roi cyfleoedd i bobl sy'n clywed ei dysgu – ac am fwy o ymwybyddiaeth o BSL yn gyffredinol ar draws ysgolion. Rhoddwyd pwyslais cryf yn yr ymatebion ar bwysigrwydd diwylliant byddar, ac ar y potensial o greu amgylchedd lle gall dysgwyr o'r tu allan i'r gymuned fyddar ddechrau deall hyn a 'thorri'r rhwystrau' sy'n draddodiadol wedi atal cyfathrebu.
- 3.15 Roedd sylwadau ymatebwyr yn cyfleu'n glir fod y cysyniad o BSL fel iaith gyntaf / prif iaith neu fel iaith ychwanegol yn gysyniad hynod o gymhleth ynddo'i hun. Atebodd un ymatebydd mewn manylder, gan dynnu sylw at nifer o elfennau ymarferol sy'n penderfynu a yw BSL yn debygol o fod yn iaith gyntaf i blant byddar.
- 3.16 Mae'r cyfranogwr yn esbonio bod y sefyllfa'n aml yn dibynnu ar y capasiti o fewn ardal benodol – gyda dewisiadau'n cael eu gwneud gan awdurdodau lleol ac athrawon unigol plant byddar. O'r herwydd gall fod yn anodd asesu 'prif' iaith plentyn byddar na fydd efallai wedi profi BSL na'r Gymraeg yn eu blynyddoedd cynnar. Mae'r cyfranogwr yn amlygu y gallai BSL felly fod yn iaith ddilynol i blant byddar hefyd, yn enwedig y rheini sy'n rhannol fyddar neu'n fyddar mewn un glust. Mae'r sylw'n codi cwestiynau ynghylch heriau diffinio BSL fel iaith gyntaf neu iaith ddilynol, ac yn ogystal, sut i gefnogi dysgwyr yn ddigonol ym mhob cyd-destun posibl.
- 3.17 Yn ogystal â hyn, codwyd rhai cwestiynau ynghylch a oedd ymgynghori sylweddol wedi cael ei drefnu gyda phobl fyddar a gyda'r rheini sy'n fyddar ag anghenion ychwanegol. Awgrymwyd bod hyn oherwydd graddau'r cymhlethdod sydd ynglŷn â'u gofynion. Gall fod yn bwysig sicrhau bod graddau'r ymgynghori a wnaed gyda phobl fyddar yn amlwg hysbys o fewn y canllawiau fel bod tryloywder i ddefnyddwyr yn y dyfodol.

- 3.18 Roedd themâu cyffredin mewn ymatebion ar gyfer yr adran hon yn adlewyrchu'r heriau o gydbwyso anghenion y ddau grŵp o fewn un ddogfen unigol, a chwestiynau pellach ynghylch y diffyg adnoddau ar gyfer gweithredu'r canllawiau. Roedd cyfranogwyr yn gofyn am enghreifftiau cliriach o sut y gellir gweithredu'r canllawiau ar draws gwahanol sefydliadau addysgol ac ar gyfer y ddau gyd-destun, ac yn gofyn am gynnwys mwy o fanylder i arwain y ddarpariaeth o staff hyfforddedig ar gyfer y ddau gyd-destun, a'r safonau y dylent eu cyrraedd o safbwynt cymwysterau a chymhwysedd.

Cwestiwn 4

Yn eich barn chi, a fydd y cyfeiriadau yn adran hawliau dynol ac amrywiaeth y canllawiau hyn at erthyglau penodol o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn helpu ysgolion a sefydliadau wrth drefnu, cynllunio a gweithredu eu cwricwlwm?

- 3.19 Roedd cyfanswm yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn dangos consensws cliriach, gyda 40 o ymatebion 'bydd', a dim ond 3 chyfranogwr yn ateb 'na fydd'.
- 3.20 Ar y cyfan, roedd cyfranwyr yn mynegi adborth cyffredinol gadarnhaol ar y cyfeiriad at Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn y canllawiau. Roedd nifer o'r ymatebwyr cadarnhaol yn ymhelaethu ar bwysigrwydd y Gonfensiwn, gyda'r sylwadau canlynol yn cyflwyno rhai o'r pwyntiau allweddol a wnaed:
- *"Mae'n hyrwyddo statws cyfartal ac yn parchu diwylliant"*
 - *"Mae hawliau ac anghenion pob plentyn yn holl bwysig i ddysgu ac ethos mewn ysgolion."*
 - *"Mae'r [canllawiau] yn amlwg yn cefnogi gwerthfawrogi amrywiaeth ac yn gwerthfawrogi gwahaniaethau diwylliannol."*
 - *"Dw i'n meddwl bod pobl sy'n clywed yn anghofio weithiau am anghenion dysgwyr Byddar. Y gobaith yw y byddant yn edrych ar ddolenni'r cyfeiriadau hyn."*

- 3.21 Teimlai ymatebwyr yn gyffredinol fod y cyfeiriadau at Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn gydnaws iawn â chanllawiau'r cwricwlwm, gan eu bod yn cefnogi ethos addysg cynhwysol i bawb. Y farn hefyd yw bod y canllawiau yn gwneud cyfraniad uniongyrchol hefyd at hawliau plant fel y'u pennir yn y Confensiwn, trwy wella eu mynediad at iaith, cyfathrebu a diwylliant.
- 3.22 Roedd nifer o gyfranogwyr yn esbonio bod yr adran hon o'r canllawiau yn cael ei hystyried yn bwysig gan ei bod yn helpu atgyfnerthu hawliau plant byddar ac yn codi ymwybyddiaeth o'u hanghenion mewn gwahanol sefydliadau.
- 3.23 Roedd un ymatebydd yn nodi bod angen i'r adran o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn y cyfeirir ati yn y canllawiau *“fod yn sail ar gyfer llunio cwricwlwm cynhwysol i bob plentyn ag anghenion ychwanegol.”* Mae diffyg dealltwriaeth ac ‘anwybodaeth’ ynghylch diwylliant byddar a phlant sydd ag anghenion ychwanegol wedi cael ei adrodd yn barhaus trwy holl ymatebion yr ymgynghoriad – gan ddangos pwysigrwydd atgyfnerthu egwyddorion fel hawl y plentyn i ddefnyddio eu hiaith eu hunain, hyd yn oed os na chaiff yr iaith honno ei rhannu gan y mwyafrif o bobl yn y wlad lle maent yn byw, a hawl y plentyn i rannu'r hyn a ddysgant yn rhydd gydag eraill.
- 3.24 Yn ôl y cyfranogwr, os bydd y rheini sy'n llunio'r cwricwlwm ym mhob ysgol yn defnyddio'r cyfeiriadau hyn fel eu sylfaen, bydd yn cynorthwyo gyda goresgyn y diffyg dealltwriaeth sy'n bod ar hyn o bryd. Cafodd y teimlad hwn ei ategu gan gyfrannwr arall a gyfeiriodd yn uniongyrchol at Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, gan bwysleisio hawliau'r plentyn i o leiaf un iaith rugl erbyn cychwyn yn yr ysgol, rhywbeth y gall cyrhaeddiad addysgol gael ei gyfyngu hebdo. Roedd yr ymatebydd yn cysylltu hyn yn glir â sut y gallai'r hawl benodol hon ddangos yr angen am ganolbwyntio ar ddarpariaeth blyneddodd cynnar a chefnogaeth bellach gartref.
- 3.25 Ar y llaw arall, roedd rhai cyfranogwyr yn tynnu sylw at y ffaith y dylai fod gan ddarparwyr addysg a'r rheini sy'n gweithio gyda phobl ifanc

ymwybyddiaeth gref eisoes o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, er enghraifft, dywedodd un o'r rheini a atebodd 'na': *'ddylai hyn ddim bod yn newydd i'r gynulleidfa darged'*.

- 3.26 O'r ddau ateb 'na' arall, roedd un cyfranogwr na wnaeth ymhelaethu. Esboniodd y llall y byddai'r cyfeiriadau at Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'u gallu i gefnogi canllawiau'r cwricwlwm yn ddibynnol ar sgiliau'r rheini a oedd yn ymwneud o ddifrif â llunio a gweithredu'r cwricwlwm. Mae'r sylw'n cadarnhau pryderon a godir mewn mannau eraill, sef, er bod cefnogaeth i uchelgais y canllawiau, bydd eu gallu i gael eu gweithredu yn dal i ddibynnu ar y rheini sy'n ymwneud â'r gwaith a'r adnoddau sydd ganddynt.

Cwestiwn 5

Rhoddir rhai disgrifiadau enghreifftiol o ddysgu ar dudalen 6 canllawiau drafft iaith Arwyddion Prydain. Yn eich barn chi, a oes unrhyw agweddau penodol o gynnydd yn iaith Arwyddion Prydain y dylid eu hadlewyrchu yn y disgrifiadau o ddysgu a gynhwysir yn fersiwn derfynol y canllawiau hyn?

- 3.27 Roedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn cyflwyno llai o gonsensws cyffredinol. O'r rheini a atebodd, atebodd 25 'oes', atebodd 15 'nac oes', ac roedd 3 nad oedd yn siwr.
- 3.28 Dywedodd ychydig o gyfranwyr fod y camau cynnydd a nodir yn y canllawiau yn glir, a bod y ddogfen bresennol yn cyflwyno'r camau cynnydd yn dda. Fe wnaeth un ymatebydd dynnu sylw at gynnwys agweddau fel safle'r corff a'r dwylo wrth gyfathrebu trwy iaith Arwyddion Prydain, a phwysigrwyd ystyried ffactorau megis y rhain wrth ddefnyddio BSL yn effeithiol.
- 3.29 Roedd eraill yn disgrifio'r camau cynnydd fel rhai 'digonol' a 'defnyddiol', sy'n gyson â chanllawiau ehangach y cwricwlwm.
- 3.30 Teimlai mwyafrif y cyfranogwyr fod angen ymhelaethu ar y camau cynnydd, gan godi nifer o bwyntiau:

- *“Dw i’n teimlo bod angen iddyn nhw fod yn fwy manwl er mwyn rhoi meysydd cliriach i staff ganolbwyntio arnynt ym mhob un o’r camau cynnydd.”*
- *“Digonol, ond byddwn i’n disgwyl y byddai enghreifftiau mwy manwl yn ddefnyddiol i athrawon.”*
- *“Dw i’n meddwl bod y disgrifiadau presennol yn bur amwys.”*
- *“Rhaid sicrhau bod ymarferwyr yn gallu cefnogi datblygiad ieithyddol plant yn ddigonol ac yn gywir.”*
- *“Mae angen ystyried agwedd gymdeithasol BSL.”*
- *“Mae angen i’r camau cynnydd ystyried gallu sylfaenol y dysgwr ac amgylchedd yr ysgol, felly yn ei hanfod gall hyn amrywio.”*

3.31 Yn ogystal â manylder a chyfarwyddyd pellach, roedd cyfranogwyr hefyd yn nodi nifer o ychwanegiadau yr hoffent eu gweld yn cael eu cynnwys mewn camau cynnydd, yn y ddogfen derfynol. Roedd y rhain yn cynnwys:

- dealltwriaeth o hanes a diwylliant byddar,
- ymwybyddiaeth o ieithoedd arwyddion eraill,
- dealltwriaeth o gyfathrebu a hygyrchedd digidol,
- cyflwyno enghreifftiau eraill o yrfaeodd fel therapyddion iaith a lleferydd a phroffesiynau gofal iechyd i ddangos defnydd hirdymor ac ehangach o iaith Arwyddion Prydain.

3.32 Ar y cyfan, roedd y brif neges trwy’r ymatebion yr helaethwyd arnynt yn galw am fwy o ganllawiau ar yr agweddau o gynnydd trwy ddarparu mwy o enghreifftiau, gan gofio y gellir deall cynnydd yn wahanol rhwng gwahanol fathau o ddysgwyr a’i gilydd.

Cwestiwn 6

A oes unrhyw agweddau o’r canllawiau hyn sy’n rhy benodol ac anhyblyg yn eich barn chi?

- 3.33 Y consensws cyffredinol mewn ymateb i'r cwestiwn hwn oedd 'na', nid nid yw'r canllawiau'n rhy benodol, gyda 37 o atebion 'na', a 6 o ymatebwyr yn ateb 'oes'.
- 3.34 Ar y cyfan, roedd bod yn fwy penodol yn cael ei weld fel rhywbeth buddiol yn sgil cymhlethdod iaith Arwyddion Prydain. Esboniwyd mai un o'r rhesymau allweddol y byddai'n well gan gyfranogwyr gael mwy o fanylder oedd bod y canllawiau yn newydd, felly y farn oedd bod cael mwy o wybodaeth yn well na pheidio â chael digon.
- 3.35 Roedd ymatebion o'r natur hwn yn cynnwys:
- *"Os rhywbeth dw i ddim yn teimlo'u bod yn ddigon penodol."*
 - *"Yn y canllawiau hyn, dw i'n meddwl bod ychydig yn fwy penodol yn fuddiol."*
 - *"Mae angen iddyn nhw gyfateb yn gyfartal â chanllawiau unrhyw ddogfen arall sy'n ymwneud â'r cwricwlwm."*
- 3.36 Roedd y teimlad hwn yn cael ei bwysleisio ymhellach gan ymatebwyr a oedd yn trafod yr angen i BSL gael ei addysgu a'i gyflwyno yn iawn, ddim 'wedi ei wneud yn wael/ei lastwreiddio'. Drwy'r holl ymatebion, mae nifer o gyfranwyr yn gwneud sylw ar bwysigrwydd trin BSL fel iaith annibynnol, i ymdrin â hi fel unrhyw iaith arall – a phwysigrwydd hyn i'r gymuned fyddar.
- 3.37 O'r rheini a atebodd 'oes' ac a ymhelaethodd gydag esboniad, roedd y pwyslais parhaus ar y cwestiwn o adnoddau a chefnogaeth. Dywedodd un cyfranogwr ei bod yn debygol y byddai angen cefnogaeth ac adnoddau cydgysylltiedig sylweddol er mwyn cyflawni amcanion y canllawiau, ac fe wnaeth un arall godi'r mater nad oes gwybodaeth ar hyn o bryd ar sut y gellir parhau dysgu gartref.

Cwestiwn 7

A oes unrhyw agweddau o'r canllawiau nad ydynt yn ddigon manwl?

- 3.38 Mewn ymateb i'r cwestiwn hwn, atebodd 17 o ymatebwyr 'oes', atebodd 24 'na', ac roedd un yn ansicr.

- 3.39 O'r ymatebion 'na', roedd nifer o gyfranwyr yn ymhelaethu gydag adborth cadarnhaol ar y canllawiau, gan eu canmol am eu *'hesboniadau da a thrylwyr'*, ac am wneud cynnydd sylweddol ar godi ymwybyddiaeth o iaith Arwyddion Prydain yn gyffredinol.
- 3.40 Ar y llaw arall fodd bynnag, roedd eraill yn mynegi disgwyliad i bwyslais pellach gael ei roi ar logisteg y cyflawni ei hun. Fel yr esboniodd un cyfranogwr, roedd disgwyliad am fwy o fanylder ar y *'cwricwlwm BSL gwirioneddol yn hytrach na 'pham' y maent yn ei wneud'*.
- 3.41 Roedd rhai cyfranogwyr yn codi cwestiynau y gellid eu hystyried wrth lunio'r ddogfen derfynol. Dywedodd cyfranogwr o BATOD Cymru fod y mudiad yn credu bod angen gwybodaeth bellach ar y canlynol:
- *"cynnydd,*
 - *pwy sy'n cyflwyno'r cwricwlwm,*
 - *cymwysterau'r rheini sy'n cyflwyno'r cwricwlwm,*
 - *rôl cyrff hyfforddi wrth gyflwyno athrawon i'r cwricwlwm BSL,*
 - *a rôl y cyfnod sylfaen a'r cyflwyniad cychwynnol i BSL."*
- 3.42 Mae'r holl faterion hyn yn cael eu hategu gan gyfranogwyr eraill trwy holl ymatebion ysgrifenedig yr ymgynghoriad, yn enwedig y cwestiynau ar weithredu a chefnogaeth ar gyfer cyflwyno BSL mewn addysg blynyddoedd cynnar.
- 3.43 Cadarnhawyd pwyntiau yma hefyd ar y gwahaniaethu rhwng BSL fel iaith gyntaf a BSL fel trydedd iaith neu iaith ychwanegol – ac y dylid *'amlygu'* y gwahaniaeth mewn disgwyliadau ar draws y ddau gyd-destun hynny.
- O safbwynt ychwanegu manylder, dywedodd cyfranwyr hefyd fod angen i gamau cynnydd fod yn fwy manwl yn ieithyddol, ac y dylai fod mwy o gydnabyddiaeth o amrywiadau rhanbarthol yng Nghymru.

Cwestiwn 8

- 3.44 *A oes unrhyw wybodaeth ychwanegol y credwch y dylid ei chynnwys yn y canllawiau hyn?*
- 3.45 O'r ymatebion a gwblhawyd, atebodd 21 'na' gyda 20 yn ateb 'oes'.
- 3.46 O'r ymatebion a deimlai fod angen gwybodaeth ychwanegol, roedd cyfranogwyr yn cyfleu'n glir bwysigrwydd diwylliant a hunaniaeth byddar, gan bwysleisio bod angen iddynt gael eu cyflwyno mewn manylder a'u hesbonio'n drylwyr o fewn y canllawiau. Mae'r sylwadau'n awgrymu nad yw cyfranogwyr yn teimlo bod hyn wedi cael ei gadarnhau i raddau digonol o fewn y ddogfen, gan ddweud er enghraifft *'mae angen i'r achos gael ei wneud mewn ffordd gref', 'nid yw'r risgiau o beidio â gwneud hyn yn cael eu hesbonio'*.
- 3.47 Ar y cam hwn roedd cyfranwyr hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd cynnwys y gymuned fyddar wrth greu'r canllawiau. Y farn oedd ei bod yn hanfodol sicrhau bod anghenion a barn pobl fyddar yn cael eu cynrychioli'n gywir. Dywedodd un ymatebydd y byddai'n anfoesegol pe bai'r cynnwys ei hun yn cael ei ddrafftio a'i greu gan neb ond pobl sy'n clywed.
- 3.48 Cyfeiriodd unigolyn arall at y canllawiau yng nghyd-destun ieithoedd ychwanegol, gan ddweud y dylid darparu dogfen enghreifftiol, ar wahân, ar gyfer cyflwyno BSL fel trydedd iaith.
- O bell ffordd, y cais mwyaf cyffredin oedd am gynnwys mwy o wybodaeth ymarferol i helpu gyda gweithredu'r canllawiau eu hunain. Roedd cyfranogwyr yn pryderu'n bennaf ynghylch a fyddai hyfforddiant addas yn cael ei ddarparu i staff er mwyn gweithredu canllawiau'r cwricwlwm yn llwyddiannus.

Cwestiwn 9

Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai canllawiau'r Cwricwlwm i Gymru ar gyfer iaith Arwyddion Prydain yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol o ran:

- *Cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg*
- *Peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.*

Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu liniaru effeithiau negyddol?

- 3.49 Roedd yr ymateb i'r cwestiwn hwn yn gyffredinol gadarnhaol. Amlinellodd un cyfranogwr sut y gallai'r canllawiau ar gyfer iaith Arwyddion Prydain gyfrannu at well dealltwriaeth o ddysgu iaith yn gyffredinol, trwy gysylltu casgliadau â thystiolaeth iddynt 'y gall symudiad fod yn strategaeth wybyddol effeithiol i gryfhau dysgu, gwella cof ac adalw, a gwella symbyliad a morâl dysgwyr. Awgryma hyn y byddai'n bosibl cyfuno dysgu'r Gymraeg â BSL mewn ysgolion.'
- 3.50 Roedd y syniad y gallai dysgu BSL gael effaith cyffredinol cadarnhaol ar gaffael iaith yn cael ei gefnogi hefyd gan enghraifft o rannwyd gan gyfranogwr o ddefnyddio arwyddion BSL wrth ddweud gweddïau a chanu caneuon yn y Gymraeg a'r Saesneg. Yn ôl cyfranogwr: 'Dw i'n credu y gall pob un o'r tair iaith gael eu cefnogi gan y naill a'r llall.'
- 3.51 Roedd ymatebwyr hefyd yn adrodd elfennau tebyg o safbwynt agweddau o strwythur iaith rhwng y Gymraeg a BSL. Hyd yn oed yn ddiwylliannol, gwnaed y sylw gan un cyfranogwr fod gan BSL a'r Gymraeg nodweddion cyffredin gan fod y ddwy sydd wedi cael eu gormesu yn hanesyddol.
- 3.52 Er bod arwyddion a symudiadau dwylo yn aml yr un fath, amlygwyd bod y gwahaniaeth allweddol rhwng defnyddwyr iaith arwyddion Cymraeg ym mhatrwm y gwefusau – sy'n wahanol. Cafodd yr elfennau strwythurol tebyg eu nodi fel ffactor a all gwneud dysgu BSL yn haws i siaradwyr Cymraeg.
- 3.53 Cafodd y materion allweddol a oedd yn cael eu gweld fel rhai'n achosi effaith negyddol posibl eu disgrifio fel potensial o ddiffyg dewis i

ddysgwyr, a darparu gwybodaeth hygyrch i ddysgwyr. Roedd rhai cyfranogwyr yn awgrymu cynllun peilot y gellid ei sefydlu i liniaru effeithiau negyddol – a fyddai'n galluogi dull graddol i'r gweithredu.

Cwestiwn 10

Esboniwch sut y gellid newid y cwricwlwm arfaethedig ar gyfer BSL i gael effeithiau cadarnhaol ar y defnydd o'r Gymraeg / i beidio â chael effeithiau negyddol ar y defnydd o'r Gymraeg.

- 3.54 Ymatebodd cyfanswm o 21 o gyfranwyr i'r cwestiwn hwn, gyda'r mwyafrif yn dweud na fyddai cyflwyno iaith Arwyddion Prydain yn cael dim effeithiau niweidiol ar ddysgu Cymraeg. Ar y cyfan, roedd cyfranogwyr ag agwedd gadarnhaol iawn hefyd ar y cyfleoedd y gallai'r canllawiau BSL eu cynnig i ddwyieithrwydd ac amlieithrwydd.
- 3.55 Roedd un cyfranogwr yn pwysleisio'r newid blaengar mewn agweddau mae'r dull newydd yn ei gyflwyno, gan fod plant byddar yn draddodiadol yn cael eu hannog i gyfathrebu drwy'r Saesneg yn unig, yn hytrach na ieithoedd eraill a ddefnyddir yn y cartref.
- 3.56 Ar hyn o bryd, y prif ffactor sy'n llesteirio datblygiad y defnydd o'r Gymraeg ym marn cyfranogwyr yw'r diffyg gweithwyr proffesiynol Cymraeg sydd â gallu i ddarparu BSL, neu o fewn y gymuned addysgu byddar. Unwaith eto, roedd y pryder allweddol a godwyd yn ymwneud ag ymarferoldeb. Roedd gan rai cyfranogwyr gwestiynau ynghylch faint o athrawon y byddar yng Nghymru sy'n rhugl yn y Gymraeg, gan bwysleisio capasiti fel maes canolog i'w ystyried.
- 3.57 Roedd yr un ymateb a ysgrifennwyd yn y Gymraeg yn awgrymu y gallai fod effaith niweidiol, gan wneud y sylw *'heb fuddsoddiad ariannol digonol, bydd yn anodd sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg'*. O fewn yr ymateb, roedd yr unigolyn yn disgrifio'i brofiad ei hun o geisio cael dehonglydd BSL gyda'r cymwysterau priodol yn ogystal â rhuglder a'r gallu i gyfieithu Cymraeg. Roedd hyn yn ategu canfyddiadau ymatebwyr eraill bod diffyg unigolion cymwys yn y maes.

- 3.58 Er mwyn goresgyn y rhwystrau hyn a chreu effeithiau cadarnhaol ar y defnydd o'r Gymraeg, fe wnaeth cyfranwyr nifer o awgrymiadau. Y rhain yn bennaf oedd: mwy o gyllid, cynllun hyfforddi dwys i athrawon, cynorthwyywyr, ac ymarferwyr, ysgoloriaethau i therapyddion lleferydd ac iaith i'r byddar er mwyn cynyddu'r nifer o arbenigwyr, a phecyn gweithredu safonol i bob sefydliad addysg er mwyn cynnal cysondeb drwy'r maes.
- 3.59 Yn ogystal ag awgrymiadau seiliedig ar adnoddau, gwnaed sylwadau cyffredinol pellach ar annog y defnydd o'r Gymraeg a BSL trwy hyrwyddo amlieithrwydd fel ased sylweddol ar gyfer hybu sgiliau cyfathrebu, datblygiad cyffredinol, a chyflogadwyedd mewn blynyddoedd i ddod.
- 3.60 Y brif neges arall gan ymatebwyr oedd sicrhau bod rhyddid dewis yn cael ei gyfleu'n glir, er mwyn sicrhau y gellir cael mynediad at addysg yn newis iaith y dysgwr, yn hytrach na bod hyn yn cael ei benderfynu ymlaen llaw ar sail yr adnoddau sydd ar gael.

Sylwadau Ychwanegol

- 3.61 Roedd y cwestiwn olaf yn cynnig cyfle i gyfranogwyr godi unrhyw faterion nad oedd eisoes wedi cael sylw yn ystod yr arolwg.
- 3.62 Roedd nifer o gyfranwyr yn canmol ethos a chynhwysiant y canllawiau cyffredinol. Adlewyrchir hyn trwy sylwadau fel 'teimlwn ei bod yn gadarnhaol iawn fod y canllawiau wedi agor trafodaeth ac ymwybyddiaeth o Gwricwlwm BSL yng Nghymru ac edrychwn ymlaen at weld mwy o fanylion ymhen amser.'
- 3.63 Fe wnaeth rhai cyfranogwyr ddefnyddio'r cyfle hwn i godi ystyriaethau ehangach nad oedd wedi eu hymgorffori'n amlwg yn y canllawiau. Gellid crynhoi'r rhain fel a ganlyn:
- Mae angen gwaith sylweddol er mwyn cau'r bwloch cyrhaeddiad rhwng dysgwyr sydd â nam y clyw a dysgwyr sy'n clywed

- Dylid cymryd camau i sicrhau bod rhieni (a all hefyd fod yn ddefnyddwyr BSL) yn cael eu cefnogi a'u bod hwythau hefyd yn gallu ymwneud â'r ysgol
- Amlygu'r ffaith fod gan arwyddo fudd hefyd o ran cyfathrebu mewn amgylcheddau swmlyd
- BSL yw'r iaith gyntaf i lawer o ddinasyddion Cymru a dylai gael ei hystyried yr un mor bwysig ag leithoedd Tramor Modern

3.64 Roedd hefyd nifer o gwestiynau ar ôl yr awgryma ymatebwyr yr hoffent eu gweld yn cael eu hateb o fewn y ddogfen orffenedig. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Pa gamau sy'n cael eu cymryd i roi'r cymorth cyfartal i ddysgwyr sydd ag anghenion addysgol arbennig?
- A fydd BSL yn cael ei addysgu gan bobl fyddar?
- A fydd y canllawiau'n sicrhau bod rhieni (a all hefyd fod yn ddefnyddwyr BSL) yn cael eu cefnogi a'u bod hwythau hefyd yn gallu ymwneud â'r ysgol?
- A fyddai cyllid ar gael i uwchsgilio staff sydd â diddordeb mewn darpariaeth BSL?
- A fydd cronfa o adnoddau i ysgolion fanteisio arnynt?

3.65 Roedd hefyd ddau bryder mwy cymhleth i'w nodi ynghylch addysg a datblygiad i ddysgwyr. Mae'r pryder cyntaf ynghylch arferion asesu ar gyfer dysgwyr iaith Arwyddion Prydain, a'r gallu i fonitro cynnydd yn briodol. Roedd un ymatebydd yn disgrifio'r diffyg asesiadau statudol ar gyfer BSL yng Nghymru fel rhywbeth sy'n 'peri pryder', oherwydd gall y diffyg cysondeb ar draws byrddau iechyd ac awdurdodau achosi anawsterau wrth olrhain ac asesu cynnydd dysgwyr. Yn ogystal, awgrymwyd gan gyfranogwr arall y gallai canolbwyntio ar asesu mewn BSL ar gyfer pynciau'r cwricwlwm fod yn fuddiol, law yn llaw ag ystyriaeth bellach o hawliau myfyrwyr i gael eu hasesu mewn BSL.

3.66 Mae'r ail o'r pryderon mwy cymhleth yn ymwneud â'r effaith mae mesurau a chyfyngiadau Covid-19 wedi eu cael ar ddysgwyr ifanc. Fel rhywbeth sy'n benodol berthnasol i blant byddar, mae darparwyr

addysg wedi trafod y cynnydd mewn rhwystrau o ran cyfathrebu sydd dod yn sgil gwisgo mygydau a'r anhawster mwy mae hyn yn ei achosi i ddarllen gwefusau. Mewn ystyr fwy cyffredinol, mae mesurau cyfnodau cloi ac ynysu hefyd wedi rhwystro plant byddar rhag cymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol ac addysgol a fyddai'n arferion yn gwella sgiliau cyfathrebu ac yn cynorthwyo gyda datblygiad.

Ymatebion Ychwanegol

Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar yng Nghymru

- 3.67 Mae'r Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r canllawiau ac yn canmol eu huchelgais i ymdrechu i sicrhau bod iaith Arwyddion Prydain ar gael i ddysgwyr iaith gyntaf a dysgwyr y mae BSL yn ail neu drydedd iaith iddynt.
- 3.68 Wrth adeiladu ar hyn, roedd ymateb y Gymdeithas yn codi rhai pryderon ynghylch darparu'n ddigonol ar gyfer y grwpiau hyn a all fod ag anghenion gwahanol iawn. Mae'r ymateb yn pwysleisio pwysigrwydd rhoi manylion digonol ar gyfer tri grŵp: plant byddar sy'n defnyddio BSL fel iaith gyntaf, plant byddar sy'n defnyddio arwyddion i gefnogi eu hiaith lafar gyntaf (Cymraeg a gefnogir gan arwyddion / Saesneg a gefnogir gan arwyddion), a dysgwyr sy'n dewis defnyddio BSL fel ail neu drydedd iaith.
- 3.69 Mae argymhellion allweddol a gyflwynwyd gan y Gymdeithas ar gyfer gwella'r canllawiau yn cynnwys:
- Trosolwg o iaith arwyddion a'r gwahanol ffyrdd y caiff ei defnyddio, gan gynnwys eglurder ar y gwahaniaeth rhwng BSL, Cymraeg neu Saesneg a Gefnogir gan Arwyddion a Makaton er mwyn dangos gwahaniaethau pwysig a helpu osgoi camganfyddiadau cyffredin.
 - Yn ogystal, mwy o fanylder (e.e. ar agweddau eraill o'r camau cynnydd)

- Rhoi mwy o sylw i eirio gofalus ac osgoi datganiadau safbwynt o fewn y canllawiau
- Gwneud newidiadau i'r adnoddau a'r dolenni (yn enwedig ar dudalennau 5 a 3) a darparu enghreifftiau mwy addas.

3.70 Yn ogystal â'r newidiadau mewn canllawiau, mae'r ymateb yn manylu hefyd ar rai camau ychwanegol y dylid eu cymryd er mwyn sicrhau gweithredu'r cwricwlwm, gan gynnwys: sicrhau bod tiwtoriaid ar gael sydd â'r wybodaeth berthnasol i gyflwyno BSL mewn ysgolion, ystyried set sgiliau gweithwyr proffesiynol BSL sy'n cefnogi dysgwyr byddar, a sicrhau bod Cymru yn symud ymlaen gyda chynlluniau i fabwysiadu'r TGAU BSL sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd.

Canolfan Gyfreithiol y Plant, Cymru

- 3.71 Cyflwynodd Canolfan Gyfreithiol y Plant yng Nghymru ddatganiad ysgrifenedig a oedd yn pwysleisio pwysigrwydd mynediad pobl ifanc at ddarpariaeth iaith Arwyddion Prydain, yn unol ag Erthyglau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn sy'n manylu ar hawliau mynegiant, cyfathrebu, addysg, ac iaith.
- 3.72 Roedd y datganiad yn dangos tystiolaeth hefyd o ganfyddiadau ymchwil o'r prosiectau 'Lleisiau Bach yn cael eu Clywed' a 'Plant fel Ymchwilwyr'.
- 3.73 Mae Canolfan Gyfreithiol y Plant yn rhoi eu cefnogaeth lawn i ymdrechion i gynyddu BSL i'r cwricwlwm a chymunedau ehangach, ac yn croesawu'r canllawiau fel man cychwyn ar gyfer cyflawni hyn. Mae Canolfan Gyfreithiol y Plant yn tynnu sylw at y cysylltiadau rhwng y canllawiau BSL a'r blaenoriaethau cenedlaethol, yn ogystal â dyheadau'r cwricwlwm newydd. Yn y datganiad, caiff y camau cynnydd eu disgrifio fel 'map trywydd clir' o'r cyflwyno i'r deall.
- 3.74 Mae'r datganiad yn cyfeirio at gyfyngiadau o fewn yr ystyriaethau i'w darparu fodd bynnag, gan cynnwys ymwneud â theuluoedd, modelau

rôl, sefydliadau partner a chymunedau ehangach.

Ymateb NEU Cymru

- 3.75 Mae NEU Cymru yn croesawu'r ffaith fod Llywodraeth Cymru'n ystyried cwricwlwm iaith Arwyddion Prydain, ac maent wedi darparu datganiad ysgrifenedig i roi sylw pellach i feysydd y tu hwnt i derfynau'r arolwg.
- 3.76 Mae'r pryderon allweddol yn ategu llawer o'r sylwadau a wnaed gan ymatebwyr yr arolwg. Maent yn cyfeirio at dri maes craidd sydd ag angen am fanylder pellach, a'r rhain yw: eglurder ar y ddarpariaeth iaith gyntaf / trydedd iaith, hyfforddiant, a threfniadau asesu.
- 3.77 Mae'r datganiad yn awgrymu y dylid sicrhau eglurder i ddysgwyr iaith gyntaf BSL, yn enwedig wrth esbonio a oes disgwyliad y bydd y dysgwyr hyn yn cwblhau gofynion iaith Cymraeg a Saesneg hefyd.
- 3.78 O ran hyfforddiant, mae'r datganiad yn pwysleisio y byddai angen lefel sylweddol o gyllid er mwyn sicrhau bod gweithwyr proffesiynol iaith arwyddion a sicrhau bod digon o ddealltwriaeth gan staff cymorth.
- 3.79 O ran trefniadau asesu, mae'r datganiad yn cyfeirio at yr angen i ddysgwyr BSL gael meini prawf asesu sy'n hygyrch iddynt.

Comisiynydd Plant Cymru

- 3.80 Mae Comisiynydd Plant Cymru yn adolygu'r canllawiau drafft gan roi ystyriaeth benodol i'w cysondeb â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.
- 3.81 Mae un o'r pryderon craidd y tynnwyd sylw atynt yn ymateb y Comisiynydd yn ymwneud ag Erthygl 12, sef yr hawl i bobl ifanc fynegi eu barnau, a bod y barnau hynny'n cael eu hystyried o ddifrif mewn materion sy'n effeithio ar bobl ifanc. Mae diffyg fersiwn plant sy'n hygyrch ac ar gael o'r deunyddiau ymgynghori wedi cael ei

grybwyll fel cyfle a gollwyd i roi'r hawl hon i blant ac ennill eu hadborth gwerthfawr.

- 3.82 Mae'r ymateb yn gofyn hefyd a gafodd plant a phobl ifanc eu cynnwys o gwbl yn y broses o ddrafftio'r canllawiau hyn hyd yma. Mae'r Comisiynydd yn pwysleisio pwysigrwydd pobl ifanc yn cyfrannu eu barnau cyn i'r canllawiau gael eu cwblhau'n derfynol.
- 3.83 Yn ogystal, mae'r Comisiynydd yn disgwyl i blant byddar, eu teuluoedd, a'r rheini sydd â chymwysterau addas mewn BSL i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad ar ddatblygiad llawn y disgrifiadau dysgu.
- 3.84 O safbwynt strwythur a graddau'r manylder yn y canllawiau, mae'r ymateb yn argymhell fod y cyfeiriadau at Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn cael eu gosod yn gynharach yn y ddogfen, er mwyn sicrhau bod hawliau plant yn cael y lle blaenaf wrth gynllunio'r cwricwlwm.
- 3.85 Yn olaf, mae'r ymateb yn pwysleisio bod mynediad cyfartal i'r cwricwlwm i ddefnyddwyr BSL yn ymestyn y tu hwnt i gynllun y cwricwlwm. Mae cael staff ar gael sy'n gallu cyfathrebu'n rhugl mewn BSL o fewn ysgolion yn hanfodol er mwyn goresgyn rhwystrau rhag mynediad a dysgu. Mae'r Comisiynydd yn crynhoi canfyddiadau sesiwn bord gron a gynhaliwyd ym mis Chwefror 2021, lle'r oedd y mynychwyr yn cadarnhau bod diffyg safonau a chynnydd mewn BSL i weithwyr cymorth cyfathrebu ac athrawon plant byddar yn broblem barhaus.

4. Gweithdai'r Ymgynghoriad

Cyflwyniad

4.1 Mae'r bennod hon yn nodi canfyddiadau chwe gweithdy a gynhaliwyd rhwng y 9^{fed} a'r 25^{ain} o Fawrth 2021. Daeth 40 o randdeiliaid o bob rhan o Gymru i'r gweithdai a hwyluswyd gan Miller Research. Roedd dehonglydd Iaith Arwyddion Prydain cymwys yn bresennol yn y gweithdai er mwyn sicrhau bod cyfranogwyr a oedd yn fyddar yn cael eu cynnwys.

4.2 O'r 40 o gyfranwyr:

- Roedd chwech yn athra plant byddar
- Roedd pedwar yn gynorthwywyr addysgu neu'n ddehonglwyr BSL yn cefnogi disgyblion byddar mewn ysgol
- Roedd un yn weithiwr cymorth cyfathrebu mewn coleg addysg bellach
- Roedd deg yn gynrychiolwyr sefydliadau neu fudiadau sy'n cefnogi'r gymuned Fyddar, gan gynnwys:
 - Talking Hands
 - Canolfan Byddardod Caerdydd
 - Cymdeithas Brydeinig y Byddar
 - Cymdeithas Brydeinig Athrawon y Byddar (BATOD)
 - Canolfan Sain Golwg Arwyddion
 - Cymdeithas Genedlaethol Plant Byddar
 - Deaf Hub Wales
- Roedd dau yn oedolion sy'n defnyddio BSL
- Roedd un yn rhiant plentyn byddar
- Roedd un yn athro mewn ysgol brif ffrwd
- Roedd un yn ddisgybl byddar mewn ysgol gyfun brif ffrwd
- Roedd un yn gynrychiolydd o Swyddfa'r Comisiynydd Plant
- Roedd 13 yn ddisgyblion mewn ysgol arbennig sy'n defnyddio BSL ar gyfer cyfathrebu.

Cwestiwn 1

Beth oedd eich argraffiadau cyntaf o ganllawiau'r Cwricwlwm i Gymru ar gyfer iaith Arwyddion Prydain?

- 4.3 Roedd y mwyafrif o ymatebwyr yn sôn am argraff gyntaf gadarnhaol o ganllawiau'r Cwricwlwm i Gymru ar gyfer iaith Arwyddion Prydain. Nodwyd bod y ddogfen yn “*darllen yn dda*”, yn rhoi “*camau cyntaf clir*” o ran cyflwyno BSL i'r cwricwlwm a'i bod yn “*drylwyr ond hefyd fod yn rhy benodol anhyblyg*”. Teimlai nifer o randdeiliaid, yn enwedig y rheini o'r gymuned Fyddar, fod y canllawiau a'r hyn roeddent yn ei gynrychioli, yn creu cyffro ynghylch cyfleoedd a gynigir.
- 4.4 Roedd amryw o gyfranogwyr yn nodi bod y canllawiau o'r dechrau un yn diffinio'r gwahaniaeth “*pwysig*” rhwng y rheini sy'n dysgu BSL fel iaith gyntaf / ail iaith a'r rheini y mae'n drydedd iaith neu iaith ddilynol iddynt.
- 4.5 Ar y llaw arall, fodd bynnag, dywedai eraill (mewn ymateb i gwestiwn 5, yn ddiweddarach yn y trafodaethau gweithdai) nad oeddent yn ymwybodol ar y cychwyn o'r pwyslais ar ddisgyblion sy'n clywed yn dysgu BSL fel trydedd iaith neu iaith ddilynol, yn ogystal â'r rheini sy'n fyddar.
- 4.6 Er bod yr argraffiadau cyntaf o'r canllawiau yn gyffredinol gadarnhaol, roedd llawer o gyfranogwyr yn amodi hyn â'r sylw fod y ddogfen yn gyffredinol iawn; dywedodd llawer eu bod yn tybio y byddai canllawiau pellach – i ysgolion a rhanddeiliaid eraill â diddordeb – yn cael eu darparu, er enghraifft ynghylch y safonau proffesiynol fydd yn ofynnol i gyflwyno BSL yn y cwricwlwm newydd.
- 4.7 Awgrymai rhanddeiliaid fod y canllawiau'n disgrifio'r sail resymegol dros *pam* y dylid addysgu BSL, er enghraifft yn y disgrifiad o sut mae BSL yn cydweddu â'r pedwar diben¹, ond doedden nhw ddim yn canolbwyntio ar *sut* y gellid dod â BSL i'r cwricwlwm, yn enwedig yn

¹ Tudalennau 2-3 o ganllawiau drafft y Cwricwlwm i Gymru ar gyfer BSL.

wyneb yr hyn roedd rhanddeiliaid yn ei adrodd fel man cychwyn isel o safbwynt darpariaeth bresennol BSL mewn ysgolion.

- 4.8 Wrth ddisgrifio'u hargraffiadau cyntaf, dywedodd amryw o gyfranogwyr y gweithdai fod angen i'r canllawiau fod yn fwy penodol, ac nid dim ond *“dyma'r canllawiau, ewch a gweithiwch i ddiwallu anghenion eich ysgol.”* Ymhelaethwyd ar y pwynt hwn mewn camau pellach yn y mwyafrif o'r gweithdai.
- 4.9 Roedd nifer o randdeiliaid yn mynegi amheuan ynghylch pa mor ymarferol fyddai gweithredu'r canllawiau heb fanylder pellach a mwy o gyfarwyddyd ar sut y dylai ddigwydd: *“heb fwy o fanylder a mwy o adnoddau, byddwn i'n ei chael yn anodd gweld pethau'n newid [gyda'r canllawiau hyn]”*
- 4.10 Roedd ychydig o'r cyfranogwyr yn feirniadol o'r canllawiau gan ei bod yn ymddangos nad oeddent wedi cael eu hysgrifennu o safbwynt y gymuned Fyddar. Dywedodd dau randdeiliad fod y ddogfen yn *“darllen fel pe bai wedi cael ei hysgrifennu o safbwynt enghreifftiol meddygol”*. Pan ofynnwyd iddynt ymhelaethu, awgrymwyd bod y canllawiau'n methu â chyfleu'r syniad y gallai BSL ac arwyddo ategu lleferydd ac felly bod y ddogfen yn parhau â chanfyddiad sy'n honedig gyffredin fod yn rhaid i blant byddar a'u rhieni ddewis rhwng arwyddo a lleferydd.
- 4.11 Roedd cyfranogwr arall yn feirniadol o gynllun ac iaith y ddogfen, a oedd yn ei farn yn *“nodweddiadol o awdur sy'n clywed”*, er enghraifft yn y defnydd o bwyntiau bwled, acronymau, a chromfachau. Awgrymwyd bod perygl i hyn ymddieithrio'r gymuned Fyddar a fyddai'n tybio y byddai cyflwyno BSL i'r cwricwlwm *“yn cael ei redeg yn benodol gan bobl sy'n clywed”*.

Cwestiwn 2

A oedd canllawiau'r Cwricwlwm i Gymru ar gyfer Iaith Arwyddion Prydain yr hyn roeddech chi wedi'i ddisgwyl?

- 4.12 Pan ofynnwyd am y graddau roedd y canllawiau'n gyson â'u disgwyliadau, roedd amryw o gyfranogwyr yn cydnabod ansicrwydd ynghylch beth i'w ddisgwyl.
- 4.13 Teimlai eraill fod y canllawiau'n mynd ymhellach nag roeddent wedi'i ddisgwyl a'u bod yn rhagori at y sefyllfa bresennol o safbwynt y ddarpariaeth bresennol o iaith Arwyddion Prydain i'r gymuned Fyddar.
- 4.14 Roedd amryw yn ailadrodd pryderon fod y canllawiau'n gyffredinol iawn a'u bod wedi disgwyl mwy o fanylder ynghylch eu gweithredu, yn enwedig o safbwynt staff a chyllido.
- 4.15 Dywedodd lleiafrif o randdeiliaid fod y canllawiau yn unol â'r hyn roeddent wedi'i ddisgwyl ac oeddent yn cynnwys dim a oedd yn eu synnu.

Cwestiwn 3

I ba raddau mae cyfatebiaeth glir rhwng canllawiau cyhoeddedig y Cwricwlwm i Gymru a'r canllawiau Cwricwlwm i Gymru drafft hyn ar gyfer iaith Arwyddion Prydain? A yw'r berthynas rhyngddynt yn glir?

- 4.16 Roedd llawer o'r cyfranwyr nad oeddent yn gallu ymateb i'r cwestiwn hwn, nad yw efallai'n syndod o gofio bod llawer ohonynt yn dod o gefndir nad oedd yn ymwneud ag addysgu a'u bod yn anghyfarwydd â'r canllawiau cyhoeddedig neu ddogfennaeth arall yn ymwneud â'r Cwricwlwm i Gymru yn ehangach.
- 4.17 Ymysg y lleiafrif o randdeiliaid a oedd mewn sefyllfa i ymateb i'r cwestiwn hwn, y consensws cyffredinol oedd fod cydnawsedd da rhwng y ddwy ddogfen ganllawiau. Nodwyd bod y canllawiau drafft ar gyfer iaith Arwyddion Prydain yn amlinellu mewn manylder sut mae BSL yn cydweddu â phob un o bedwar diben y Cwricwlwm i Gymru yn ehangach.
- 4.18 Teimlai un cyfranogwr fod y canllawiau BSL yn gwbl unol â chanllawiau cyhoeddedig y Cwricwlwm i Gymru, er bod y naill a'r llall yn eithaf cyffredinol ac yn brin o fanylder: "mae'r [naill a'r llall] yn

eithaf byr, yn amwys, yn sgerbwd moel ... bydd yr ychydig flynyddoedd nesaf yn dangos sut y byddant yn cael eu rhoi ar waith."

Cwestiwn 4

I ba raddau mae cyfatebiaeth glir rhwng Maes Dysgu a Phrofiad leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu a'r canllawiau Cwricwlwm i Gymru drafft hyn ar gyfer Iaith Arwyddion Prydain? A yw'r berthynas rhyngddynt yn glir?

- 4.19 Unwaith eto, nid oedd mwyafrif cyfranogwyr y gweithdai yn gallu mynegi barn ar y gyfatebiaeth rhwng y canllawiau drafft ar gyfer Iaith Arwyddion Prydain a'r canllawiau ar gyfer Maes Dysgu a Phrofiad leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu, oherwydd diffyg gwybodaeth o'r Maes.
- 4.20 Roedd y rhai a wnaeth ymateb i'r cwestiwn hwn yn teimlo fod y ddwy ddogfen ganllawiau yn gyson iawn â'i gilydd, yn enwedig y cyfeiriadau a'r dolenni at y datganiadau o beth sy'n cyfrif a beth mae'r datganiadau hyn yn ei olygu yng nghyd-destun BSL. Awgrymwyd hefyd fod y disgrifiadau dysgu hefyd yn enghraifft o gysondeb â'r canllawiau ar gyfer Maes Dysgu a Phrofiad leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu.
- 4.21 Roedd un cyfranogwr yn nodi bod yr "*hyn sy'n gyfochrog*" rhwng y canllawiau ar gyfer Maes Dysgu a Phrofiad leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu a'r canllawiau BSL drafft yn pwysleisio'r hyn sydd gyfochrog rhwng BSL ac ieithoedd tramor modern fel Ffrangeg neu Almaeneg: "*mae'r [canllawiau BSL drafft] yn gyson iawn â'r modd maent yn rhagweld datblygu ieithoedd ryngwladol.*"
- 4.22 Fel gyda chanllawiau ehangach y Cwricwlwm i Gymru, roedd un rhanddeiliad yn cyfeirio at nodweddion tebyg rhwng y canllawiau BSL a'r canllawiau ar gyfer Maes Dysgu a Phrofiad leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu o safbwynt eu byrddra: "*mae'r [canllawiau BSL a'r canllawiau ar gyfer y Maes Dysgu a Phrofiad leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu] yn ymddangos yn glir ... wedi eu*

hysgrifennu'n glir o'r un ffynhonnell, i'r un diben OND mae'r naill a'r llall yn fyr iawn ... maent angen mwy o fanylder."

Cwestiwn 5

Mae gennym ddiddordeb mewn archwilio gwahaniaethau rhwng dysgwyr iaith Arwyddion Prydain sy'n ei dysgu fel iaith gyntaf neu ail iaith, a dysgwyr sy'n dod ati fel trydedd neu bedwaredd iaith, fel y byddent gydag Almaeneg neu Ffrangeg. A yw'r canllawiau Cwricwlwm i Gymru drafft hyn ar gyfer iaith Arwyddion Prydain yn cydbwyso anghenion y rheini sy'n ymwneud â BSL yn y ddau gyd-destun hyn?

- 4.23 Roedd llawer o gyfranogwyr y gweithdai heb ddeall perthnasedd y canllawiau i ddysgwyr sy'n clywed ac roedd canfyddiad cyffredin nad ymddengys yn glir fod y canllawiau yn ymwneud â'r rheini sy'n dysgu iaith Arwyddion Prydain fel trydedd neu bedwaredd iaith.
- 4.24 Roedd consensws cyffredinol yn llawer o'r gweithdai y dylai'r flaenoriaeth a'r buddsoddi fod ar ddarpariaeth iaith Arwyddion Prydain ar gyfer plant byddar, o leiaf ar y cychwyn, am y rhesymau canlynol:
- Pryderon fod dysgwyr byddar *"eisoes ymhell ar ôl plant sy'n clywed."*
 - Y risg canfyddedig o anghysondeb mewn lefelau sgiliau: *"A oes perygl y bydd plant sy'n clywed yn diweddu gyda gwell BSL na phlant byddar?"*
 - Yr angen mwy sylfaenol am sgiliau BSL ymysg dysgwyr byddar: *"mae gwahaniaeth mawr rhwng rhywun sy'n defnyddio [BSL] gartref a rhywun sy'n ei dysgu fel iaith arall ... angen diwallu anghenion [y cyntaf] i ddechrau."*
 - Yr angen am fwy o bwyslais ar ddysgwyr byddar yn dysgu BSL fel iaith gyntaf neu ail iaith oherwydd *"yr angen i ddatblygu eu hiaith eu hunain er mwyn datblygu eu dysgu wedyn mewn pynciau eraill."*

- 4.25 Roedd rhanddeiliaid eraill yn deall bod y canllawiau'n ymdrin â dysgwyr BSL byddar: *"trwy'r pedwar diben, mae'n sôn am ba mor berthnasol yw BSL i bawb."* Mewn un gweithdy, awgrymwyd bod y canllawiau BSL yn "atgoffa rhywun o'r Cwricwlwm Cymraeg ac yn ceisio trochi ysgolion cyfrwng Saesneg yn y Gymraeg".
- 4.26 Credai un rhanddeiliad fod y canllawiau'n gosod mwy o bwyslais ar y rheini sy'n dysgu BSL fel trydedd iaith neu iaith ddilynol gan grybwyll y cyfeiriad at asesu fel enghraifft o'r pwyslais hwn: *"mae'n sicr fod angen mwy o ddyfnder [ar y canllawiau] o safbwynt dysgu BSL fel iaith cyntaf."*
- 4.27 Mewn un neu ddwy o weithdai, roedd trafodaeth ynghylch ymarferoldeb addysgu iaith Arwyddion Prydain i ddysgwyr byddar a dysgwyr sy'n clywed a chytunwyd ymysg y ddau grŵp fod diffyg capasiti cyffredinol i addysgu BSL yn golygu y bydd darparu ar anghenion y ddau gohort yn dasg anodd.
- 4.28 Roedd cyfranogwyr y gweithdai hefyd yn mynegi pryderon ynghylch anghysondebau yn y safonau addysgu a'r gofynion cymwysterau i ymarferwyr sy'n addysgu BSL i'r ddau wahanol grŵp hyn; y consensws cyffredinol oedd y dylai safonau fod yn uwch i'r rheini sy'n addysgu BSL i ddysgwyr byddar, sef y dysgwyr y mae'n iaith gyntaf neu'n ail iaith iddynt. Roedd un cyfrannwr yn awgrymu bod y canllawiau'n nodi'r safonau o safbwynt cyflawni i'r ddau gohort, gan awgrymu y dylai'r athro i'r rheini sy'n dysgu BSL fel trydedd iaith neu iaith ddilynol fod wedi'i gymwysu i lefel 2 neu 3 fel isafswm, ond fod mwy o angen am arbenigwr i ddysgwyr sy'n defnyddio BSL fel iaith gyntaf neu ail iaith.
- 4.29 Awgrymwyd hefyd gan nifer o gyfranwyr fod angen i'r rheini sy'n addysgu BSL fel trydedd iaith neu iaith ddilynol fod yn gyfarwydd â diwylliant Byddar a'r cyd-destun ehangach ynghylch BSL fel iaith.
- 4.30 Yn ogystal â'r trafodaethau hyn ynghylch safonau proffesiynol, roedd cyfranogwyr mewn amryw o weithdai yn cyfeirio at y disgwyliadau

cynnydd ymysg y ddau gohort². Teimlai rhai cyfranogwyr fod angen mwy o wahaniaethu rhwng lefelau disgwyledig cynnydd i ddysgwyr y mae BSL yn iaith gyntaf neu'n ail iaith iddynt a'r rheini y mae'n drydedd iaith neu iaith ddilynol.

- 4.31 Dywedodd un cyfranogwr fod dysgwyr byddar yn tueddu i orffen ysgol gydag ychydig iawn o gymwysterau a chyfleoedd i gamu ymlaen i yrfa neu addysg bellach: *“mae gan y cwricwlwm newydd hwn y gallu i newid hynny – cyn belled â'i fod yn ddigon uchelgeisiol, rhywbeth nad yw'r camau cynnydd [drafft] yn ei awgrymu.”*
- 4.32 Roedd un rhanddeiliad yn amau pa mor hawdd fyddai symbylu dysgwyr i ymwneud â BSL fel trydedd iaith neu iaith ddilynol, tra bod un arall yn mynegi amheuan ynghylch dichonoldeb cyflwyno BSL fel dewis o drydedd iaith neu iaith ddilynol mewn ysgolion prif ffrwd: *“All ysgolion ddygymod ag iaith ychwanegol?”*

Cwestiwn 6

Mae Canllawiau Drafft y Cwricwlwm i Gymru ar gyfer Iaith Arwyddion Prydain yn cynnwys cyfeiriadau at erthyglau penodol yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, megis hawl plentyn i ddefnyddio'u hiaith a'u diwylliant eu hunain hyd yn oed os na chaiff y rhain y rhannu gan y mwyafrif o bobl yn y wlad lle maent yn byw, a'r hawl i gael gwybodaeth o'r rhynggrwyd, radio, teledu, papurau newydd, llyfrau a ffynonellau eraill.

Yn eich barn chi, a fydd y cyfeiriadau yn adran hawliau dynol ac amrywiaeth y canllawiau hyn at erthyglau penodol o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn helpu ysgolion a sefydliadau wrth drefnu, cynllunio a gweithredu eu cwricwlwm?

² Sef: y rheini sy'n dysgu BSL fel iaith gyntaf neu ail iaith a'r rheini sy'n dysgu BSL fel trydedd iaith neu iaith ddilynol.

- 4.33 Y consensws cyffredinol ar draws y grwpiau oedd bod y cyfeiriad at Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn ychwanegiad cadarnhaol at y canllawiau, er bod ei gynnwys yn codi amryw o gwestiynau, gan gynnwys:
- Y pryder a grybwyllwyd yn aml am **athrawon BSL heb fod yn ddigon cyfarwydd ag iaith a diwylliant BSL** er mwyn gwireddu'r hawliau a galluogi dysgwyr byddar i gyrraedd eu llawn botensial mewn amgylchedd prif ffrwd: *“Angen cyflogi'r bobl iawn – cymwysedig mewn BSL ac adnabyddiaeth o'r diwylliant Byddar.”*
 - Yr angen i **ystyried safbwyntiau pobl ifanc** wrth ddatblygu a gweithredu'r canllawiau hyn ar gyfer BSL yn y cwricwlwm.
 - Yr angen i **ystyried dysgu BSL yn anffurfiol (y tu allan i'r ysgol, er enghraifft mewn grwpiau ieuenctid)**, yn wyneb y cyfeiriad at hawliau plant i gaffael gwybodaeth o amrywiaeth o wahanol ffynonellau.
 - Yr her o sicrhau nad yw dysgwyr byddar yn cael eu hallgáu o'r **system addysg brif ffrwd gan sicrhau hefyd y gallant gynnal eu hunaniaeth a'u diwylliant Byddar**: *“Sut ydym yn [bodloni gofynion Comisiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn] os nad oes ond un plentyn byddar yn yr ysgol? Sut allan nhw gael mynediad at eu diwylliant eu hunain?”*
 - Pryderon nad yw **Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn** wedi amddiffyn hawliau pobl anabl yn **ddigonol**: *“felly rhaid [i'r canllawiau] edrych ar hawliau pobl anabl³ ar y cyd â hawliau'r plentyn.”*
 - Yr **angen i gynnwys cyfeiriad at Ddeddf Cydraddoldeb 2010**.
- 4.34 Roedd rhanddeiliaid yn nodi rhai manteision i'r cyfeiriad at Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, a oedd yn cynnwys:

³ Mae gan y canllawiau gyfeiriad a dolen at Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau; fodd bynnag, awgrymwyd, fodd bynnag, nad oedd hyn mor amlwg yn y canllawiau â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

- Mae'n helpu rhoi awdurdod i'r canllawiau trwy eu cysylltu ag addewid a gaiff ei barchu'n rhyngwladol: *"bydd canlyniadau a goblygiadau cyfreithiol os caiff [y canllawiau] hyn eu hanwybyddu ... mae'n hanfodol ymateb i anghenion plentyn."*
- Mae'n rhoi pwyslais ar y weledigaeth o gefnogi a galluogi plant byddar i adael ysgol brif ffrwd wedi eu harfogi'n well ac wedi eu cymhwyso'n uwch na'r hyn sy'n digwydd yn nodweddiadol ar hyn o bryd.

Cwestiwn 7

Rhoddir rhai disgrifiadau enghreifftiol o ddysgu ar dudalen 6 canllawiau drafft Iaith Arwyddion Prydain. Yn eich barn chi, a oes unrhyw agweddau penodol o gynnydd yn Iaith Arwyddion Prydain y dylid eu hadlewyrchu yn y disgrifiadau o ddysgu a gynhwysir yn fersiwn derfynol y canllawiau hyn?

- 4.35 Roedd rhanddeiliaid yn croesawu cynnwys y disgrifiadau dysgu, yn enwedig i blant byddar a fyddai, yn nodweddiadol, yn dysgu BSL fel iaith gyntaf neu ail iaith. Y teimlad oedd bod rhoi *"llwybr cynnydd clir i blant byddar yn bwysig ... mae dyheadau wedi bod yn isel o'r blaen ... [mae'r canllawiau] yn canolbwyntio ar yr hyn y gallai ac y dylai plentyn byddar ei gyflawni."*
- 4.36 Cyfeiriodd rhanddeiliad arall at y diffyg nodau realistig i ddisgyblion byddar yn y gorffennol: *"Dw i'n hoffi'r camau cynnydd ... mae'n dda cael rhywbeth i'r plant anelu ato sy'n wahanol i'w cyfyngu i 'ennill TGAU', rhywbeth sydd y tu hwnt i rai ohonynt."*
- 4.37 Teimlai rhanddeiliaid eraill, fodd bynnag, er yn cymeradwyo'r syniad o gynnwys y disgrifiadau dysgu, nad oeddent yn ddigon o her i'r rheini sy'n dysgu BSL fel iaith gyntaf neu ail iaith:
- "Nid yw cam cynnydd 1 yn darllen fel rhywun sydd â gwybodaeth eisoes o BSL."*

“Rhaid i gynnydd mewn ysgol gynnwys – ac ymestyn – defnyddwyr BSL fel iaith gyntaf yn yr un modd â'r Gymraeg fel iaith gyntaf ... nid yw'r [disgrifiadau dysgu] yn ymddangos yn uchelgeisiol iawn. Ni fyddent yn rhoi iddynt y cyfle i dyfu yn yr ysgol yn yr un ffordd â phlant eraill.”

- 4.38 Awgrymwyd bod angen mwy o wahaniaethu rhwng y disgwyliadau ar ddysgwyr iaith gyntaf neu ail iaith a dysgwyr trydedd iaith neu iaith ddilynol o fewn y camau cynnydd; teimlai rhai fod y camau cynnydd i'r rheini sy'n dysgu BSL fel trydedd iaith neu iaith ddilynol yn rhy heriol.
- 4.39 Teimlai rhai cyfranwyr fod angen i'r disgrifiadau dysgu gael eu diffinio'n fwy diamwys. Wrth gyfeirio at y disgrifiad dysgu cyntaf yng Ngham Cynnydd 1 i ddysgwyr byddar, dywedodd un cyfrannwr a oedd â phrofiad o addysgu a defnyddio BSL: *“Ai'r wyddor yn unig yw'r 'cysyniadau sylfaenol' hyn? Gallaf addysgu hyn mewn 20 munud.”*
- 4.40 Awgrymwyd gan gyfranogwr arall fod yr amwysedd yn y disgrifiadau dysgu yn golygu ei bod yn bosibl dehongli'r rheini ar gyfer dysgwyr byddar fel rhai digon tebyg i'r disgrifiadau dysgu ar gyfer y rheini sy'n dysgu BSL fel trydedd iaith neu iaith ddilynol – yn enwedig ar Gam Cynnydd 5: *“Dydyn nhw'n ddim yn gwneud synnwyr. Byddech yn meddwl o'u darllen nhw heb unrhyw gyd-destun y byddai'r ddau gohort ar yr un safon yn fras ar gam cynnydd 5 – dylai plentyn BSL cynhenid fod wedi cyrraedd safon llawer uwch.”*
- 4.41 Roedd dau randdeiliad yn cyfeirio at y ffaith mai ychydig o blant byddar sy'n cychwyn dysgu BSL o'u genedigaeth ac yn canmol y cyfeiriad at y ffaith fod plant byddar yn aml yn cael eu cyflwyno'n hwyr i BSL. Awgrymwyd y byddai pa bryd y mae plant yn dechrau dysgu BSL yn cael dylanwad ar eu gallu i gyflawni'r disgrifiadau dysgu, yn enwedig ar y Camau Cynnydd lefelau is: *“Mae gan 90 y cant o blant byddar rieni sy'n clywed a byddent yn ddibynnol ar rieni'n cymryd y cam rhagweithiol o ddysgu BSL ... felly gallent ddechrau ysgol heb ddim BSL.”*

- 4.42 Er bod y disgrifiadau dysgu yn creu llawer o drafod ehangach ymysg cyfranogwyr y gweithdai, dim ond un cyfranogwr a dynnodd sylw at agwedd benodol o gynnydd mewn BSL y dylid ei hadlewyrchu yn y disgrifiadau dysgu ar gyfer y canllawiau: *“dylai cyfathrebu naturiol gael ei gynnwys – fel defnyddio'r Gymraeg yn achlysurol, dyna'r unig beth mae plant byddar yn colli'r cyfle iddo yw dysgu trwy ddefnydd achlysurol.”* Er bod yr un rhanddeiliad yn cydnabod anawsterau cyflwyno BSL achlysurol mewn ysgolion lle nad oes ond ychydig iawn o athrawon yn deall yr iaith, awgrymwyd ei bod yn bwysig ei ystyried.
- 4.43 Yn olaf, teimlai lleiafrif o gyfranogwyr nad oedd y canllawiau'n ddigon clir pam fod y disgrifiadau dysgu ar gyfer BSL fel trydedd iaith neu iaith ddilynol yn cychwyn ar Lefel 3.

Cwestiwn 8

A oes unrhyw agweddau o'r canllawiau hyn sy'n rhy benodol ac anhyblyg yn eich barn chi?

- 4.44 Ar draws pob grŵp, nid oedd neb a oedd yn credu bod y canllawiau yn rhy benodol: *“Na [nid ydynt yn rhy benodol] – dw i'n eu hoffi fel syniad ac maent yn fan cychwyn da.”*

Cwestiwn 9

A oes unrhyw agweddau o'r canllawiau hyn nad ydynt yn ddigon manwl yn eich barn chi?

- 4.45 Roedd cyfranogwyr y gweithdai yn nodi nifer o feysydd lle'r oedd, yn eu barn hwy, gofyn mwy o fanylder neu eglurder pellach ar y canllawiau, gan gynnwys:
- Y disgrifiadau dysgu a beth fydd y rhain yn ei olygu yng nghydestun iaith Arwyddion Prydain.
 - Asesu a beth fydd hyn yn ei olygu mewn gwirionedd, sef: Pwy fydd yn cyflawni'r asesiadau hyn? Sut fydd asesu dysgwyr byddar yn wahanol o gymharu ag asesu'r rheini sy'n dysgu BSL fel trydedd

iaith neu iaith ddilynol, eglurder ynghylch y sgiliau a gaiff eu hasesu, er enghraifft *“beth yw ystyr Prawf Lleferydd-Darllen Plant?”*

- Mwy o fanylder ar ddiwylliant a hunaniaeth Byddar, y mae *“angen iddynt fod yn ganolog ... mwy na'r un sylw yn unig yn y canllawiau.”*
- Mwy o eglurder ar ddiben dysgu BSL fel iaith ychwanegol: *“Ydyn nhw [y rheini sy'n dysgu BSL fel trydedd iaith neu iaith ddilynol] â'u bryd ar gael cymhwyster BSL?”*
- Yn ogystal, canllawiau pendant ar weithredu BSL yn y cwricwlwm newydd, yn enwedig ynghylch safonau proffesiynol. *“Yn sicr, nid [yw'r canllawiau] yn ddigon manwl na phenodol ... maen nhw'n ganllawiau ar yr hyn maent yn GOBEITHIO y byddwn yn eu gwneud ond maent angen mwy o eglurder cyn y bydd pobl heb ddim gwybodaeth na phrofiad o BSL yn eu harddel – maent angen mwy o sgaffaldiau.”*
- Manylion ar le y gall rhanddeiliaid gael mwy o wybodaeth ynghylch BSL yn y cwricwlwm newydd.

Cwestiwn 10

A oes unrhyw wybodaeth ychwanegol y credwch y dylid ei chynnwys yn y canllawiau hyn?

4.46 Roedd rhanddeiliaid yn awgrymu y gellid ychwanegu'r wybodaeth ganlynol at y canllawiau drafft ar gyfer Iaith Arwyddion Prydain:

- **Gofynion am safonau proffesiynol** – roedd hwn yn fater a grybwyllwyd yn aml yn y gweithdai. Teimlai rhanddeiliaid fod angen safonau isafswm i gymwysterau proffesiynol; y consensws cyffredinol y dylai hyn fod yn BSL Lefel 4, yn ogystal â chymwysterau addysgu rheolaidd – yn ogystal â phrofiad o weithio gyda phobl fyddar. Roedd rhai rhanddeiliaid yn mynegi pryderon y gallai ysgolion ddefnyddio pobl sy'n brin eu gwybodaeth o BSL a heb ddim cymwysterau addysgu ffurfiol oni bydd gofynion clir am safonau isafswm: *“Mae angen arnoch i'r athro yn y dosbarth fod fel athro Ffrangeg neu Almaeneg – wedi ei gymhwyso'n addas yn yr*

un ffordd i addysgu dosbarth cyfan o blant." Teimlai lleiafrif o gyfranogwyr y dylai BSL fod yn orfodol mewn hyfforddiant cychwynnol i athrawon, er mwyn sicrhau bod gan bob athro isafswm gwybodaeth o'r iaith.

- **Canllawiau ar ddatblygu proffesiynol parhaus** i sicrhau y gall athrawon uwchsgilio / ailsgilio (ee: trwy ddyddiau hyfforddiant mewn swydd), gan y *"gall fod athrawon wedi cwblhau eu hyfforddiant BSL lawer blwyddyn yn ôl."*
- **Manylion ar ba safonau isafswm fydd mewn grym o ran addysgu a dysgu** (e.e. nifer o wersi yr wythnos etc) a sut fydd safonau'n cael eu cynnal.
- **Canllawiau ar ymwybyddiaeth o Fyddardod** a sut i ymddwyn o gwmpas plant byddar (er enghraifft bod yn ymwybodol o lefelau sŵn mewn ystafelloedd dosbarth a'r effaith niweidiol mae hyn yn ei gael ar ddysgu, hyd yn oed i'r rheini sydd â mewnblianiad yn y cochlea).
- Mwy o wybodaeth a chanllawiau ar **sut i gyflwyno diwylliant a hunaniaeth Byddar wrth addysgu BSL.**
- **Enghreifftiau o'r arferion gorau** – *"nid yw'r canllawiau'n ddigon"*
- Gwybodaeth ar y camau nesaf *"beth sy'n digwydd i'r canllawiau hyn? Os mai dyma yw'r hyn a roddir i'r ysgolion, beth sy'n digwydd nesaf?"*

Sylwadau eraill⁴

4.47 Roedd sylwadau ychwanegol a wnaed yn ystod y gweithdy yn cynnwys:

- **Pryderon ynghylch yr amserlen ar gyfer cyflwyno iaith Arwyddion Prydain i'r cwricwlwm newydd**, yn wyneb y diffyg gweithlu (cymwys a phrofiadol) ar hyn o bryd i addysgu BSL fel iaith gyntaf / ail iaith a thrydedd iaith / iaith ddilynol: *"pan ydych yn*

⁴ Mae'r adran hon yn rhestru materion neu bryderon a godwyd gan randdeiliaid y gweithdai yn ystod trafodaethau nad oedd yn ymwneud yn uniongyrchol ag unrhyw gwestiynau penodol.

darllen [y canllawiau drafft BSL] maen nhw'n darllen fel pe baen nhw eisoes ar waith, ond mae ffordd bell i fynd cyn y bydd y ddogfen hon yn realistig ... mae'r raddfa amser yn rhy uchelgeisiol o safbwynt codi ysgolion i'r safon. Mae angen camau ac amserlen well neu fel arall bydd yn methu o fewn y cyfnod hwnnw."

- Yr angen am **fwy o fuddsoddiad ariannol mewn hyfforddi athrawon BSL** *"ni ddylai athrawon fod yn hunan-gyllido [hyfforddiant BSL]."*
- Pryder na roddir y **pwysigrwydd dyladwy i gyflwyno BSL i'r cwricwlwm**: *"Gallai arwain at ysgolion yn penodi pobl ar hap dim ond oherwydd eu bod yn digwydd gwybod ychydig o BSL."*
- Yr angen i wneud mwy i **gael gwared ar y dicotomi rhwng BSL a lleferydd / mewnbaniadau yn y cochlea** mae llawer o blant byddar a'u rheini yn ei wynebu. Dylai BSL gael ei weld fel agwedd arferol o gyfathrebu i'r rheini sydd (hefyd) yn defnyddio lleferydd. *"Mae ar blant angen mynediad cyfartal at BSL a lleferydd – does dim byd yn y canllawiau sy'n gwadu nac yn cefnogi hyn, felly efallai y gallai fod mwy i gefnogi'r ddau ddull."*
- Pwysigrwydd **datblygu ymwybyddiaeth BSL / Byddardod o'r blynyddoedd cynnar** (e.e. plant sy'n clywed mewn lleoliadau meithrin yn dysgu tapio plant Byddar ar yr ysgwydd).
- Pryder y gallai pwysau o ran capasiti arwain at weithwyr proffesiynol yn defnyddio hyfforddiant rhithiol BSL: *"NID dysgu ar-lein ar gyfer BSL yw'r ffordd ymlaen."*
- Yr angen i **alluogi/annog pobl fyddar i hyfforddi fel athrawon BSL** er mwyn creu modelau rôl i ddysgwyr BSL byddar a sicrhau bod y rheini sy'n addysgu BSL yn deall diwylliant Byddar.
- Yr angen i sicrhau cysondeb y BSL a addysgir – gan gadw hefyd amrywiadau rhanbarthol (Gogledd/De Cymru) mewn arwyddion.
- Pryder ynghylch **diffyg eglurder ynghylch PAM dysgu BSL i blant sy'n clywed**: *"[mae] gwahaniaeth gwirioneddol rhwng dysgu gwneud ychydig o arwyddion fel gweithgaredd hwyl i grŵp mewn ysgol gynradd a gwreiddio BSL gyda nod o gael plant yn*

cyfathrebu i ddiben, ac mae hynny'n dod yn ôl i pam, beth yw symbyliad yr ysgol neu'r dosbarth neu aelodau unigol o staff."

- Y cyfle mwy i gynnwys plant sy'n clywed mewn dysgu BSL lle bo plentyn byddar yn eu dosbarth/ysgol.
- Cydnabyddiaeth ein bod ni mewn **sefyllfa unigryw yng Nghymru oherwydd mae gennym eisoes y Gymraeg a phwyslais ar ddwyieithrwydd/amlieithrwydd**: roedd cyflwyno BSL i ddisgyblion sy'n clywed mewn ysgolion prif ffrwd yn cael ei gymharu â disgyblion o deuluoedd cyfrwng Saesneg yn mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg.
- Yr angen i'r **rheini sy'n addysgu BSL i fod wedi cymhwyso cyn iddynt gael eu penodi**: *"Fyddech chi ddim [yn recriwtio] athrawon Cymraeg gyda hysbysebion yn dweud bod yn rhaid ichi fod yn barod i ddysgu Cymraeg."*
- Y cyfle mae datblygu'r cwricwlwm newydd hwn yn ei gynnig o safbwynt **rhwystro plant byddar rhag gorfod cael eu hanfon i ysgol breswyl i'r byddar**.